

Dull hunanasesu cymarebau staffio ar gyfer gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored i blant 8-12 oed

Cyflwyniad

I'ch cynorthwyo i osod cymarebau staffio diogel, rydym wedi datblygu dull hunanasesu. Mae'r dull yn caniatáu i ddarparwyr cofrestredig gwasanaethau chwarae mynediad agored asesu'r cymarebau staffio i blant 8 i 12 oed fel sy'n ofynnol dan Safon 15.14 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae hunanwerthuso'n bwysig i'n helpu ni ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnal a gwella gwasanaethau fel eu bod yn bodloni'r safonau uchaf ac yn cynnig y profiad gorau i blant ifanc.

Safon 15.14 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer plant 8-12 oed

Mae'r canlynol yn ofynnol o dan y safon hon:

'Dylai cymarebau staffio fod yn ddigonol a chyfatebol, gan gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol i'r holl blant sy'n mynychu. Dylai cymarebau staffio adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad, gan gynnwys y safle a lefel y gweithgareddau a wneir, sut caiff risgiau eu rheoli, profiad a chymwysterau'r staff, y cyd-destun cymunedol, ac oedran a galluoedd y plant sy'n mynychu, a dylent fod yn ddigon uchel i allu ymdrin ag argyfwng. Bydd angen i'r gymhareb o bobl sydd â chymwysterau cymorth cyntaf adlewyrchu'r amgylchiadau hyn.'

'Cyfrifoldeb y gwasanaeth fydd gosod cymarebau yn unol â'r safon newydd, a bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau amrywiol sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored rydych chi'n ei gweithredu.'

Diffiniad:

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn diffinio chwarae mynediad agored fel:

Darpariaeth chwarae mynediad agored – Gall darpariaethau chwarae mynediad agored dan oruchwyliaeth staff, sy'n gweithredu am dros ddwy awr y dydd ac sydd ar gyfer plant hyd at 12 oed, fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, a gellir eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau, mewn safleoedd penodol neu beidio, a gallant gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau ysgol. Fel arfer, mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig gwasanaeth i blant o ystod oedran eang, ond pum mlwydd oed a hŷn fel arfer. Y bwriad yw rhoi cyfleoedd chwarae i blant dan oruchwyliaeth staff, a hynny heb eu rhieni fel arfer. Nid oes cyfyngiadau o ran symudiadau'r plant, ac

eithrio pan fyddant yn ymwneud â materion diogelwch, ac ni chânt eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant.

Ni fydd rhai o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored oherwydd natur y ddarpariaeth. Fodd bynnag, lle bo hyn yn berthnasol, dylid parhau i ystyried bod y safonau'n fanteisiol fel mater o arfer da.

Gofynion Safon Ofynnol Genedlaethol 15.14 ar gyfer plant dan wyth oed yw:

Nid yw'r gymhareb staffio ofynnol mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, sef 1:13 ar gyfer plant dan wyth oed, yn newid. Nid yw plant o dan bump oed yn mynychu darpariaethau o'r fath yn gyffredinol, ac mae'n bosibl y bydd angen i'r cymarebau fod yn uwch ar gyfer cynlluniau sy'n gweithredu mewn parciau cyhoeddus.

Natur mynediad agored a mathau gwahanol o chwarae

Isod, gwelir natur amrywiol a'r mathau gwahanol o chwarae y gellir eu rheoleiddio.

Gall darpariaeth chwarae mynediad agored fod yn ddarpariaeth barhaol neu dymor byr, a gellir ei chynnal mewn gwahanol amgylcheddau neu heb fod mewn safle penodol, gan gynnwys canolfannau chwarae, meysydd chwarae antur, cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol, a pharciau.

Er bod y term 'mynediad agored' yn berthnasol i ddarpariaeth gofrestredig ar gyfer plant dan 12 oed, mae darpariaeth o'r fath fel arfer ar gyfer plant o ystod oedran eang, gan gynnwys plant dros 12 oed.

Bwriad y ddarpariaeth yw rhoi cyfleoedd chwarae i blant dan oruchwyliaeth staff, a hynny heb eu rhieni fel arfer.

Mae'r plant yn cael rhwydd hynt i ddewis o'r amrywiaeth o weithgareddau chwarae sydd ar gael iddynt a chyda pwy maent eisiau chwarae.

Nid oes cyfyngiadau o ran symudiadau'r plant, ac eithrio pan fyddant yn ymwneud â materion diogelwch a phan fo trefniadau arbennig wedi'u gwneud, ac ni chânt eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant.

Cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau chwarae mynediad agored cofrestredig yng Nghymru yn ddarpariaethau tymhorol, sy'n gweithredu yn ystod gwyliau'r haf ac weithiau yn ystod gwyliau ysgol eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau am ddim, er bod rhai'n codi ffi fach fel cyfraniad gorfodol neu wirfoddol. Gall cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau gael eu cynnal gan gynghorau cymuned, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, cymdeithasau chwarae gwirfoddol, neu awdurdodau lleol.

Pan fo awdurdodau lleol a rhai darparwyr mwy yn y sector gwirfoddol yn gyfrifol am y cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau, byddant o bosib yn cael eu cynnal mewn nifer o safleoedd gan gludo offer mewn ceir neu faniau rhwng safleoedd, a byddai'r polisïau, y strwythurau rheoli, a'r arferion gwaith yn gyson ym mhob safle.

Mae gan rai cynlluniau chwarae le dan do, megis campfa canolfan hamdden, adeilad ysgol, neu ganolfan gymunedol, ond cynhelir cynlluniau chwarae eraill mewn parciau cyhoeddus, tiroedd ysgol, neu safleoedd agored eraill.

Darpariaeth beripatetig neu geidwaid chwarae

Mae darpariaeth beripatetig neu geidwaid chwarae yn cyfeirio at ddarpariaeth chwarae mynediad agored sydd heb leoliad penodol. Bydd y ddarpariaeth wedi'i seilio ar nifer o ffactorau, gan gynnwys archwiliadau cymunedol, lle mae plant yn dewis chwarae, a chynghor gan bobl leol. Mae darpariaeth o'r math hwn yn caniatáu i weithwyr chwarae fod yn *fwy deinamig* yn y modd maent yn gweithredu. Y nod ar gyfer darpariaeth o'r math hwn yw sicrhau bod gweithwyr chwarae yn gallu cynnal y ddarpariaeth yn unrhyw le bron yn y gymuned lle mae plant yn chwarae, ac yn gallu addasu lle maent yn gweithredu ar sail profiad ac amgylchiadau lleol.

Bydd staff yn defnyddio dull o asesu manteision cymryd risg er mwyn sefydlu pryd a lle bydd y ddarpariaeth yn cael ei chynnal, ond bydd fel arfer yn cael ei chynnal mewn parciau, lleoedd gwyrdd, coetiroedd, traethau, neu ardaloedd chwarae dynodedig. Mae enghreifftiau mewn rhai rhannau o'r DU lle caiff strydoedd eu cyfyngu rhag traffig er mwyn i weithwyr chwarae weithredu mewn strydoedd preswyl.

Oherwydd natur y math hwn o ddarpariaeth, mae'n bosib na fydd cyfleusterau megis toiledau, ardaloedd paratoi bwyd, cyfleusterau golchi ac ati ar gael. Yn sgil natur mynediad agored, mae disgwyl i'r plant fynd adref fel arfer i ddefnyddio'r toiled.

Weithiau, cynhelir cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau gan ddefnyddio model darpariaeth tebyg, ond gellir cynnal y math hwn o ddarpariaeth ar ôl ysgol neu ar benwythnosau trwy gydol y flwyddyn hefyd.

Meysydd chwarae antur a chanolfannau chwarae

Mae meysydd chwarae antur yn darparu lle yn yr awyr agored a gweithwyr chwarae - nid oes adeiladau na strwythurau parhaol ynddynt o reidrwydd. Gall plant chwarae a chymdeithasu ag eraill ar eu telerau eu hunain, adeiladu cuddfan neu dŷ pen coed, gwneud tân, cloddio gerddi, cynnal brwydr ddŵr, a chwarae yn y mwd a'r glaw. Mae'n lle y dylai plant fod yn berchen arno - lle gallant gyfarwyddo eu chwarae eu hunain, bod yn ddigymell, swnllyd, budr, blêr a gwirion, a lle gallant brofi eu hunain yn erbyn eu hamgylchedd a phobl eraill.

Mae meysydd chwarae antur yn gweithredu trwy gydol y flwyddyn, ac o ystyried eu hangen am gyllid rheolaidd, maent yn dueddol o fod â phwrpas cryf a hanes yn y gymuned leol.

O ystyried hanes a natur cydol flwyddyn meysydd chwarae antur, mae'r staff gan amlaf yn brofiadol ac yn gymwysedig, o'u cymharu â chynlluniau chwarae tymhorol a thros dro.

Asesu gwasanaethau chwarae mynediad agored

Mae'r dull hunanasesu (Atodiad 1) yn adnodd i'ch cefnogi i sicrhau bod y staff priodol yn eich gwasanaeth (goruchwylwyr a gweithwyr chwarae) sydd â'r sgiliau a'r profiad i ddarparu gwasanaeth diogel i gyfanswm y plant yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei gyfer.

Cofrestru ac arolygu gwasanaethau chwarae mynediad agored

Ar gyfer gwasanaethau chwarae mynediad agored i blant 8 i 12 oed, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno copi o'r ddogfen hunanasesu a gwblhawyd gennych ynghyd â dogfennau allweddol eraill yn rhan o'ch cais i gofrestru, neu er mwyn amrywio amod eich cofrestriad. Yn ogystal, bydd y ddogfen asesu staff yn cael ei hystyried gan yr arolygydd ynghyd â nifer o ddogfennau allweddol eraill a restrir yn *Canllawiau Arolygu AGGCC ar gyfer Gofal Plant, Gwarchod Plant, a Chwarae* yn rhan o'r ymweliad arolygu.

Bydd yr arolygydd yn defnyddio'r dull hunanasesu a gwblhawyd gennych i lywio'r arolygiad. Byddwn yn defnyddio'r dull i bennu os yw eich cymarebau staffio'n ddiogel a phriodol i'r amgylchiadau. Bydd yn rhoi tystiolaeth o ansawdd eich gwasanaeth, gan nodi manylion ynglŷn ag unrhyw gryfderau, diffygion, a chmau gweithredu y byddwch yn eu cymryd i wella'r gwasanaeth, ac yn sicrhau bod cymarebau staff priodol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored yr ydych yn ei darparu.



Atodiad 1

Dull er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored wneud hunanasesiad o'r cymarebau staffio ar gyfer plant 8-12 oed

Gofynnir i ddarparwyr wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn wir a chywir
- Sicrhau bod yr holl feysydd/tablau gofynnol yn cael eu cwblhau
- Sicrhau bod y dull ar gael i AGGCC ar gais (ac unrhyw ddogfennau allweddol eraill, megis datganiad o ddiben a gweithdrefnau i amddiffyn plant)
- Unwaith y bydd y ffurflen hon wedi'i chwblhau, sicrhewch ei bod yn cael ei **llofnodi a'i dyddio gan berson cofrestredig. Os bydd y ffurflen yn cael ei chwblhau gan y person â gofal am y lleoliad, mae angen cadarnhad bod y person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi adolygu'r wybodaeth a ddarperir ac wedi cytuno arni**

Rhaid i chi gwblhau'r adran hon bob tro

<i>Uchafrif y plant yr ydych yn bwriadu, neu wedi'ch cofrestru i ddarparu gwasanaeth chwarae, ar eu cyfer</i>	
<i>Ystod oedran y plant</i>	
<i>Nifer y staff (nodwch nifer y goruchwylwyr a'r gweithwyr chwarae)</i>	
<i>Nifer y staff sy'n meddu ar dystysgrifau cymorth cyntaf (ar gyfer</i>	

<i>uchafrif y plant yr ydych yn gofalu amdanynt)</i>	
<i>Uchafrif cymarebau staffio ar gyfer sesiwn arferol</i>	
<i>Uchafrif cymarebau staffio mewn amgylchiadau eithriadol</i>	
<i>Trefniadau wrth gefn os eir heibio'r cymarebau staffio arferol</i>	

Defnyddiwch yr adran hon i'ch helpu chi ddewis eich cymarebau staffio. Cwblhewch y rhannau sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth yn unig

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a champau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> Lefel y cymwysterau gwaith chwarae o fewn y tîm 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Yr hyfforddiant mae'r staff yn ei ddilyn er mwyn ennill cymwysterau</i> <i>Sut i gefnogi datblygiad</i> 	Cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd y staff yn derbyn cefnogaeth i ennill cymwysterau a monitro'r staff wrth iddynt ddilyn hyfforddiant
<ul style="list-style-type: none"> Lefel y cymwysterau perthnasol eraill, gan gynnwys cymwysterau mewn gwaith ieuencid, dysgu, datblygiad cymunedol, gofal plant 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mae'r lleoliad yn dangos sut mae cymwysterau eraill yn cyfrannu at brofiad y staff</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Pa mor brofiadol yw'r tîm staff yn gyffredinol? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Profiad gwaith chwarae uniongyrchol a phrofiad arall</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> A oes strwythurau ar waith er mwyn i staff llai profiadol gysgodi staff mwy profiadol, gan ddysgu oddi wrthynt a chael eu mentora 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Cynlluniau ar gyfer hyfforddiant sefydlu</i> <i>Sesiynau goruchwyllo/arfarniadau</i> <i>Arferion myfyriol</i> <i>Cyfarfodydd tîm</i> 	

ganddynt?		
<ul style="list-style-type: none"> Sut maent yn cael hyfforddiant ac yn ennill cymwysterau? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mae llwybr pendant i'w ddilyn trwy'r cymwysterau os yw hyn dan reolaeth y gwasanaeth</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> A oes dull cytunedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid</i> <i>Cynadleddau a digwyddiadau hyfforddiant</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Pa mor hir mae'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth penodol? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>CVs y staff</i> <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff</i> 	

Cyd-destun/hanes cymunedol

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a champau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r staff yn rheoli'r gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i ddigwyddiadau neu'n gallu ymdrin ag ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Gwybodaeth i rieni</i> <i>Gwybodaeth i blant</i> <i>Gweithdrefnau ymwelwyr sy'n oedolion/arwyddo i mewn</i> <i>Trefniadau wrth gefn</i> <i>Gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Pa mor dda mae'r staff yn adnabod y gymuned, 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Pa mor hir mae'r ddarpariaeth wedi bod yn gweithredu?</i> 	

<p>y rhieni, a'r plant sy'n mynychu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Trosiant staff</i> • <i>Archwiliadau cymunedol</i> • <i>Adolygiad ansawdd gofal</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • Sut fath o berthynas sydd rhwng y plant a'r gweithwyr chwarae? 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Ffigurau presenoldeb</i> • <i>Sut rheolir ymddygiad y mae oedolion yn ei weld yn heriol</i> • <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff a phlant</i> • <i>Adolygiad ansawdd gofal</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • Pa mor dda y mae pobl leol yn gwybod am y ddarpariaeth, neu'n ei gwerthfawrogi a'i chefnogi? 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff, rhieni, plant a rhanddeiliaid</i> • <i>Archwiliadau cymunedol</i> • <i>Codi arian yn y gymuned</i> • <i>Pobl leol yn cefnogi'r ddarpariaeth</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • A yw rhieni'n deall natur y ddarpariaeth? 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gwybodaeth a chyfathrebu â rhieni</i> • <i>Datganiad o ddiben</i> • <i>Tystiolaeth ansoddol gan rieni</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae presenoldeb rhieni ac oedolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gwybodaeth ar gyfer rhieni sy'n mynd gyda phlant dan oed</i> • <i>Datganiad o ddiben</i> • <i>Polisi diogelu</i> • <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff, rhieni a phlant</i> • <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau</i> 	

Oedrannau a galluoedd y plant

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a chymau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r gwasanaeth yn ymdrin â newidiadau annisgwyl yn y niferoedd neu yn yr ymddygiad wrth chwarae? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Niferoedd presenoldeb</i> <i>Cofnodion dyddiadur/myfyriol</i> <i>Cyfarfodydd tîm</i> <i>Arferion myfyriol</i> <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> <i>Gweithgareddau a gynigir</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Beth yw patrwm presenoldeb y plant? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Ffigurau presenoldeb</i> <i>Sut mae ffactorau allanol yn dylanwadu ar y niferoedd, e.e. tywydd, digwyddiadau cymunedol; sut y defnyddir hyn i gynllunio'r lefelau staffio</i> <i>Oedrannau'r plant sy'n mynychu</i> <i>Swyddogaeth brodyr a chwiorydd hŷn neu aelodau o'r teulu</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> A yw'r plant yn gyfarwydd â'r ddarpariaeth a'r ystod o gyfleoedd chwarae sydd ar gael? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Ffigurau presenoldeb</i> <i>Hyd y cyfnod mae'r ddarpariaeth wedi bod yn gweithredu</i> <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff a phlant</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Sut caiff plant sydd angen mwy o 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Profiad y tîm staff</i> <i>Dealltwriaeth amlwg o anghenion</i> 	

gefnogaeth eu canfod, a sut dylai'r tîm ddiwallu eu hanghenion?	<i>cymorth a sut i ymateb</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Cynllun cyfeillio/gweithiwr cymorth</i> • <i>Ffurflenni cofrestru plant</i> • <i>Cyfathrebu â'r rhieni</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae plant yn cefnogi ei gilydd 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Tystiolaeth ansoddol gan blant a staff</i> • <i>Tystiolaeth ansoddol o ryngweithio cadarnhaol rhwng plant o bob oedran</i> • <i>Cynlluniau cyfeillio</i> 	

Rheoli risgiau

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a chymau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> • A oes dull asesu manteision cymryd risg (ysgrifenedig neu ar lafar, y mae'r staff yn ei ddeall) sy'n ymdrin â'r ffordd y dylai'r ddarpariaeth gael ei goruchwyllo? 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> • <i>Cyfarfodydd tîm</i> • <i>Arferion myfyriol</i> • <i>Gwybodaeth i rieni</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> • Sut caiff cymarebau staffio eu cynllunio a'u dewis? 	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> • <i>Cynllunio staff</i> • <i>Ffigurau presenoldeb</i> 	

Y lleoliad a lefel y gweithgareddau a wneir

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a chamau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> Mae proses glir o wneud penderfyniadau wrth leoli'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ei bod mewn lleoliad da ar gyfer y gymuned a bod unrhyw beryglon yn cael eu rheoli 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Archwiliadau cymunedol</i> <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> <i>Archwilio'r lle chwarae</i> <i>Ymgynghoriadau cymunedol</i> <i>Tystiolaeth ansoddol gan staff, plant a rhanddeiliaid</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> A yw'r man yn hygyrch i'r cyhoedd? Os felly, sut caiff hyn ei reoli? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> <i>Cofrestr ymwelwyr</i> <i>Arferion myfyriol</i> <i>Cyfarfodydd tîm</i> <i>Cofnodion o ddigwyddiadau</i> <i>Gweithiwr chwarae yn arsylwi</i> <i>Polisi diogelu</i> <i>Sgyrsiau â'r plant</i> 	
<ul style="list-style-type: none"> Os oes lle chwarae dan do, sut caiff y niferoedd mwyaf a'r cymarebau staffio eu rheoli? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Safle wedi'i rannu – tu mewn a thu allan</i> <i>Adnoddau/gweithgareddau penodol tu mewn</i> <i>Cynnal lefelau goruchwyllo</i> <i>Cyfyngu ar y niferoedd</i> 	

Trefniadau wrth gefn

Materion i'w hystyried	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau a thystiolaeth	Sut caiff hyn ei reoli? Cryfderau, diffygion, a chymau gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r person â gofal yn sicrhau bod digon o staff ar gael i hwyluso'r sesiwn mewn achosion o ddamweiniau, digwyddiadau, a newidiadau annisgwyl yn nifer y plant sy'n bresennol ac yn yr ymddygiad wrth chwarae? 	<ul style="list-style-type: none"> <i>Symud staff o un safle i'r llall</i> <i>Gweithdrefnau rheoli risgiau gan gynnwys asesiad deinamig o fanteision cymryd risg</i> <i>Adroddiadau damweiniau a digwyddiadau</i> <i>Arferion myfyriol</i> <i>Cynnal adolygiad o'r gweithgareddau arfaethedig/a gynlluniwyd ymlaen llaw</i> 	

DATGANIAD

Cwblhewch y datganiad canlynol:

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth a roddir yn y ddogfen hon yn gamarweiniol nac yn anghywir.

Teitl	Llofnod
Person Cofrestredig/Gwarchodwr Plant	
Unigolyn cyfrifol ar ran cwmni neu sefydliad	
Person â gofal (enw'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen)	
DS: Os bydd y ddogfen hon yn cael ei chwblhau gan y person â gofal am y gwasanaeth, mae angen cadarnhad bod y person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi adolygu'r wybodaeth a ddarperir ac wedi cytuno arni trwy lofnodi isod.	
Unigolyn/ion cofrestredig	

Unigolyn cyfrifol ar ran cwmni neu sefydliad	
----------------------------------------------	--